



Ymarfer Sgiliau Gwrando



Mae gwahaniaeth rhwng clywed a gwrando. Mae'n rhaid gwrando er mwyn deall gwybodaeth. Weithiau, bydd eich plentyn angen ymarfer sut i wrando.

Dyma awgrymiadau...




Trefnwch amser gwrando



Eglurwch beth y mae gwrando yn ei olygu





Mwynhewch chwarae gemau gwrando





Gofynnwch gwestiynau

Trefnwch





- Dewisiwch yr un cyfnod bob dydd e.e. ar ôl cinio.
- Chwiliwch am le tawel.
- Mae cyfnod o 10 munud yn ddigon.
- Gwobrwywch eich plentyn e.e. Rŵan mi wyt ti am chwarae gemau gwrando, wedyn mi gei di...

Eglurwch



Eglurwch beth ydi amser gwrando sef bod angen eistedd, edrych ar bwy sy'n siarad, bod yn dawel, a chadw dwylo'n llonydd. Dangoswch sut mae gwneud hyn.



Mwynhewch


Chwiliwch am bethau'n y tŷ sy'n gwneud synau gwahanol e.e. taro sosban, gwasgu pasta, ysgwyd reis.



- Chwaraewch a thrafodwch y gwahanol synau y mae e.e. y reis, pasta a'r sosban yn eu gwneud.
- Pan mae eich plentyn yn adnabod a gallu enwi'r synau, chwaraewch y gêm.
- Gofynnwch i'ch plentyn gau ei lygaid / llygaid ac enwi pa sŵn yr ydych chi'n ei wneud.
- Pan mae eich plentyn yn gallu gwneud hyn, chwaraewch mwy nag un sŵn ar ôl ei gilydd a gofynnwch i'ch plentyn ddweud yn mha drefn y gwnaethoch chi eu chwarae e.e. "Yn gyntaf...wedyn...yn olaf."

Er mwyn gwneud y gêm yn anoddach, chwiliwch am bethau sy'n gwneud synau tebyg.

Gwrandewch ar sŵn llythrennau efo'ch plentyn (gallwch ddefnyddio ap Tric a Chlic*)



a




- Pan mae eich plentyn yn adnabod synau gwahanol llythrennau, chwaraewch y gêm.
- Eglurwch eich bod am ddweud llythrennau gwahanol e.e. c, a, t, m, a, p.
- Eglurwch bod rhaid i'ch plentyn daro'r sosban bob tro y mae'n clywed e.e. y llythyren a.

Er mwyn gwneud y gêm yn anoddach, ychwanegwch faint o bethau sydd rhaid i'ch plentyn eu gwneud e.e. clywed a = taro sosban, clywed m = ysgwyd reis, clywed t = gwasgu pasta.

Os ydi hyn yn anodd, gwnewch luniau i helpu eich plentyn gofio.



Edrychwch ac helpwch plentyn i
adnabod ac enwi gwahanol liwiau



- Pan mae eich plentyn yn adnabod ac yn enwi gwahanol liwiau, chwaraewch y gêm.
- Eglurwch eich bod am ddweud 'stori' a bod rhaid i'ch plentyn godi a dawnsio bob tro y mae'n clywed y gair glas e.e. Roedd hi'n bwrw glaw a roedd Elin yn gwisgo côt las.

Er mwyn gwneud y gêm yn anoddach, ychwanegwch faint o bethau sydd rhaid i'ch plentyn eu gwneud e.e. clywed glas = codi a dawnsio, clywed melyn = curo dwylo, clywed gwyrdd = codi a neidio.

Peidiwch â phoeni am y 'stori', does dim rhaid iddi wneud synnwyr!

Cwestiynwch

Beth wyt ti'n
ei glywed?

Ystyriwch y
synau
gwahanol sy'n
y cartref

Beth sy'n
gwneud y sŵn
yna?

